Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Canllaw i fyfyrwyr sy’n llywodraethwyr yng Nghymru

–

**Aaron Porter**

# Cynnwys

Cyflwyniad 2
Diffinio termau pwysig 3
Beth yw llywodraethu (addysg uwch)? 4
Beth yw'r corff llywodraethu a beth yw eich cyfrifoldebau? 5
Y corff llywodraethu ac is-bwyllgorau 6
Meithrin perthynas â chlerc/ysgrifennydd y brifysgol 7
Cyfrifoldebau penodol llywodraethwyr 7
Pam mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn bwysig? 8
Cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr 8
Heriau i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr 9
Beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau? 9
Gweithredu fel ymddiriedolwr elusen 10
Adolygiad Camm o Lywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru 11
Cyngor ymarferol i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr 11
Llywodraethu academaidd 14
Dolenni at ddogfennau/canllawiau eraill 14

# Cyflwyniad

Mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad arbennig i'n prifysgolion bob blwyddyn. Er bod eich cyfnod yn y swydd wedi'i gyfyngu i flwyddyn fel arfer, fel myfyriwr sy'n llywodraethwr rydych chi'n dod â chyd-destun a phersbectif hynod werthfawr i'ch prifysgol ac i'r ffordd y caiff ei rhedeg.

Mae'r canllaw hwn, a grëwyd gan Advance HE gyda chymorth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr er mwyn eich cynorthwyo yn y rôl. Bydd yn cyflymu eich cyfnod sefydlu, yn cynnig awgrymiadau a syniadau i chi, ac yn eich briffio ar gyd-destun ehangach eich rôl. Bydd y canllaw hwn yn ategu'r hyfforddiant a'r cyfnod sefydlu a ddylai fod wedi'u cynnig i chi, fel arfer gan glerc/ysgrifennydd y brifysgol, a fydd yn ffynhonnell bwysig o gymorth i chi drwy gydol eich cyfnod yn y swydd.

Mae'r cynnwys wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r sector, gan gynnwys mewnbwn gan fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr, staff undebau myfyrwyr, llywodraethwyr prifysgolion, Grŵp Clercod ac Ysgrifenyddion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru.

Fel sefydliadau cymhleth, mae prifysgolion yn cael eu rhedeg o ddydd i ddydd gan yr uwch dîm rheoli neu'r tîm gweithredol (o dan arweiniad yr is-ganghellor) ond y corff llywodraethu, bwrdd y llywodraethwyr neu'r cyngor sy'n gyfrifol am y strategaeth gyffredinol a chydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol. Yn achos prifysgolion Cymru, bydd gan y corff llywodraethu tua 15-22 o aelodau fel arfer. Gyda'r mwyafrif yn aelodau lleyg/annibynnol, bydd yn cynnwys myfyrwyr a staff a'r is-ganghellor, ac weithiau bydd yn cynnwys uwch aelodau eraill o weithrediaeth y brifysgol (naill ai fel aelodau neu eu bod yn bresennol yn rheolaidd).

Mae prifysgolion Cymru yn sefydliadau addysg uwch ac yn elusennau, sy'n golygu bod gofynion deuol arnynt o ran y Cyngor Cyllido a'r Comisiwn Elusennau. Mae llywodraethwyr hefyd yn ymddiriedolwyr ffurfiol i'r sefydliad.



**Canllaw i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr yng Nghymru**
Aaron Porter

# Diffinio termau pwysig

Mae gan bob sector lawer o derminoleg ac acronymau ac nid yw'r sector addysg uwch yn eithriad. Dyma rai termau a geiriau pwysig y mae'n werth i lywodraethwr newydd, gan gynnwys myfyrwyr sy'n llywodraethwyr, wybod amdanynt:

+ **Llywodraethu** – y strwythur a'r system ar gyfer gwneud penderfyniadau, atebolrwydd a chydymffurfiaeth.
+ **Corff llywodraethu/Bwrdd y llywodraethwyr/Cyngor** – mae gwahanol brifysgolion yn defnyddio termau gwahanol i gyfeirio at eu hawdurdod gwneud penderfyniadau goruchaf. Yn y canllaw hwn byddwn yn cyfeirio'n bennaf at y 'corff llywodraethu'.
+ **Senedd/Bwrdd Academaidd** – corff academaidd goruchaf y brifysgol gyda goruchwyliaeth gan y corff llywodraethu, a fydd yn cytuno ar strategaethau dysgu, addysgu ac ymchwil y brifysgol ac yn craffu ar berfformiad academaidd.
+ **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)** – rheolydd a chyllidwr addysg uwch Cymru.
+ **Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC)** – y corff aelodaeth cynrychioliadol ar gyfer cadeiryddion cyrff llywodraethu prifysgolion ledled gwledydd Prydain.
+ **Cadeiryddion Prifysgolion Cymru** – y corff aelodaeth cynrychioliadol ar gyfer cadeiryddion cyrff llywodraethu prifysgolion Cymru.
+ **Prifysgolion Cymru** – y corff aelodaeth cynrychioliadol ar gyfer naw prifysgol Cymru. Mae ei fwrdd yn cynnwys is-gangellorion prifysgolion Cymru.
+ **Y Comisiwn Elusennau** – sy'n gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio elusennau ledled Cymru a Lloegr i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cefnogi elusennau yn hyderus.
+ **Y Senedd** – Senedd Cymru. Mae'r Senedd yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
+ **Addysg drydyddol** – mae hyn yn cwmpasu pob addysg ôl-uwchradd ffurfiol gan gynnwys prifysgolion, colegau a sefydliadau hyfforddiant technegol.

# Beth yw llywodraethu (addysg uwch)?

Gellir disgrifio llywodraethu fel "y weithred neu'r modd o lywodraethu sefydliad".

Yn ôl adroddiad Cadbury, "Mae Byrddau'n gyfrifol am lywodraethu eu cwmnïau…Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys pennu amcanion strategol y cwmni, darparu'r arweiniad i'w rhoi ar waith, goruchwylio rheolaeth y busnes ac adrodd i'r cyfranddalwyr ar eu stiwardiaeth".

Ym maes addysg uwch, gall byrddau gael eu galw'n Gyngor neu'n Fwrdd y Llywodraethwyr.

Yn ôl y Sefydliad ar Lywodraethu, "llywodraethu sy'n penderfynu pwy sydd â grym, pwy sy'n gwneud penderfyniadau, sut mae chwaraewyr eraill yn lleisio eu barn a sut mae atebolrwydd yn cael ei ddosbarthu".

Yng nghyd-destun addysg uwch, y corff llywodraethu sy'n pennu'r fframwaith, y naws a'r safonau ar gyfer llywodraethu yn y sefydliad, ac mae'r rhyngwyneb â'r weithrediaeth yn hollbwysig. Mae'n aml yn ddefnyddiol ystyried bod tri prif llinyn i'r ffordd y caiff prifysgol ei rhedeg: **llywodraethu corfforaethol, llywodraethu academaidd** a **rheolaeth weithredol**.

Mae llywodraethu corfforaethol yn diweddu gyda'r corff llywodraethu a'i is-bwyllgorau allweddol; mae llywodraethu academaidd yn cynnwys llawer o bwyllgorau prifysgol allweddol a bydd fel arfer yn diweddu gyda'r bwrdd academaidd neu'r senedd (sydd yn ei dro yn bwydo mewn i'r corff llywodraethu); a chyflawnir rheolaeth weithredol drwy gyfuniad o bwyllgorau gweithredol a'r arferion rheoli llinell o ddydd i ddydd yn y brifysgol.

Mae cael y cydbwysedd cywir rhwng llywodraethu a rheolaeth yn hollbwysig. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o lywodraethu, gwelwn fod llywodraethwyr a rheolwyr yn glir ynghylch eu priod gyfrifoldebau – mae gan lywodraethwyr arolygiaeth strategol o weithgareddau tra bod rheolwyr yn cyflwyno ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Mae'r tabl hwn yn helpu i ddangos y ffin rhwng rôl llywodraethwr a rôl rheolwr neu'r weithrediaeth.

**RÔL LLYWODRAETHWR**

- Pennu'r genhadaeth a'r cynllun strategol yn seiliedig ar argymhellion gan y tîm rheoli
- Sicrhau bod systemau rheoli effeithiol yn bodoli i weithredu a chyflawni'r cynllun strategol
- Monitro perfformiad
- Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol gyffredinol
- Cymeradwyo a monitro systemau rheolaeth ac atebolrwydd
- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau deddfwriaethol.

**LLINELL DDANGOSOL**

Mae hon yn aml yn llinell hylifol ond mae'n rhaid ei seilio ar ymddiriedaeth a rennir bob amser.

**RÔL RHEOLI**

- Nodi'r gweithgareddau angenrheidiol i gyflawni'r genhadaeth a'r cynllun strategol
- Sefydlu systemau rheoli effeithiol i gyflawni'r cynllun strategol
- Pennu a chyflwyno'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r perfformiad dymunol
- Cymeradwyo cyllidebau adrannol ar lefel ficro
- Sefydlu a gweithio i systemau rheolaeth ac atebolrwydd
- Dangos cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau deddfwriaethol.





# Beth yw'r corff llywodraethu a beth yw eich cyfrifoldebau?

Y corff llywodraethu yw corff neu awdurdod uwch y brifysgol.

Mae'n gyfrifol yn y pen draw am bob penderfyniad allweddol, am sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol, am gytuno ar y strategaeth a monitro perfformiad, am benodi'r is-ganghellor, am gymeradwyo cyllidebau ac am faterion o bwys sylweddol o ran enw da.

Fel sefydliad addysgol ac elusen, mae aelodau'r corff llywodraethu hefyd yn ymddiriedolwyr i'r sefydliad. I'r perwyl hwnnw, dylai'r corff llywodraethu fod yn ceisio gweithredu er budd hirdymor y brifysgol bob amser, i gadw ei chynaliadwyedd hirdymor.

Mae cyfansoddiad corff llywodraethu yn cael ei bennu gan drefniadau cyfansoddiadol y sefydliad; dylai fod gan y corff fwyafrif o lywodraethwyr annibynnol neu lywodraethwyr 'lleyg' (allanol). Yn ogystal, gan amlaf mae aelodaeth y corff llywodraethu hefyd yn cynnwys llywodraethwyr 'mewnol'. Fel arfer, pennaeth/is-ganghellor y sefydliad (ac, mewn rhai sefydliadau, nifer fach o uwch-ddeiliaid swyddi eraill), myfyrwyr (gan gynnwys llywydd undeb y myfyrwyr yn aml) ac unigolion sy'n aelodau o staff academaidd a phroffesiynol y sefydliad yw'r rhain. Mae gan rai prifysgolion Cymru un myfyriwr sy'n llywodraethwr, ond mae gan y rhan fwyaf ddau ohonynt. Mae maint corff llywodraethu prifysgolion yng Nghymru yn amrywio rhwng 15 a 22 o bobl.

Ar ôl proses recriwtio agored, caiff unigolion o'r tu allan i'r sefydliad eu gwahodd i fod yn aelodau 'lleyg' neu annibynnol o'r corff ar sail eu gwybodaeth a'u harbenigedd neu'r hyn y maent yn gallu ei gynnig i rwydweithiau neu sefydliadau penodol sydd o werth i'r sefydliad.

Er y gall llywodraethwyr lleyg fod yn anghyfarwydd â'r brifysgol neu â maes addysg uwch hyd yn oed, ond yn cynnig arbenigedd o feysydd eraill, mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr fel arfer yn gyfarwydd iawn â'r brifysgol. Bydd y meysydd y byddwch angen eu datblygu yn aml yn ymwneud â busnes ffurfiol y corff llywodraethu.

Fel arfer, bydd corff llywodraethu yn cyfarfod bedair i chwe gwaith y flwyddyn, ac efallai y bydd dyddiau yn cael eu neilltuo i ystyried materion allweddol sy'n wynebu'r sefydliad yn fanylach hefyd.

# Y corff llywodraethu ac is-bwyllgorau

Bydd gan bob corff llywodraethu prifysgol nifer o is-bwyllgorau allweddol, rhwng tri ac wyth is-bwyllgor fel arfer. Bydd nifer a threfniant yr is-bwyllgorau yn amrywio o brifysgol i brifysgol, ac fel arfer cânt eu nodi yn yr erthyglau neu'r statudau ar gyfer pob prifysgol.

Bydd disgwyl i bob prifysgol gael is-bwyllgorau yn cwmpasu'r canlynol:

**Archwilio** – rôl y pwyllgor archwilio yn gyffredinol yw ystyried rheoleiddio a chydymffurfiaeth, a bydd fel arfer yn edrych ar reolaethau mewnol a rheoli risg. Er mwyn cefnogi hyn, bydd fel arfer yn cael adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol (arbenigwyr yw'r rhain a fydd yn profi systemau a rheolaethau ar draws ystod o weithgarwch prifysgol). Nid yw'n arferol i fyfyrwyr fod yn aelodau o'r pwyllgor hwn oherwydd natur dechnegol llawer o'r drafodaeth, ond efallai y byddai'n werth archwilio cyfleoedd i fyfyrwyr gyfrannu at eitemau penodol lle mae safbwynt y myfyriwr yn bwysig.

**Tâl** – rôl y pwyllgor tâl yw goruchwylio a chytuno ar y trefniadau ar gyfer tâl uwch aelodau'r brifysgol a datganiadau rheoleiddio, gan gynnwys yn y datganiadau ariannol. Bydd rhai pwyllgorau tâl hefyd yn edrych yn ehangach ar y dull o ymdrin â chyflogau a thâl ar draws y brifysgol gyfan.

**Enwebiadau** – y pwyllgor sy'n gyfrifol am recriwtio aelodau newydd i'r corff llywodraethu a phoblogi is-bwyllgorau, gan ystyried amrywiaeth a chymysgedd sgiliau'r rhai sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd ac unrhyw fylchau sy'n bodoli. Bydd hefyd yn aml yn ystyried effeithiolrwydd llywodraethu ehangach yn y brifysgol.

**Cyllid** – y pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu a chytuno ar gyllidebau a rhagolygon ariannol (a fydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu llawn), yn ogystal â chraffu ar yr enillion ariannol i'w cyflwyno i'r Cyngor Cyllido.

Mae'n bosib y bydd gan brifysgolion bwyllgorau sy'n ymdrin â'r canlynol: strategaeth, adnoddau dynol/pobl, ystadau/adeiladau, iechyd a diogelwch, dyfarniadau er anrhydedd (gall rhai o'r rhain fod yn adrodd yn uniongyrchol i'r corff llywodraethu, mewn achosion eraill gall y rhain fod yn adrodd i uwch reolwyr neu gyrff gweithredol).

Waeth sut y caiff strwythur pwyllgorau ei drefnu yn eich prifysgol, y corff llywodraethu cyfan sy'n gyfrifol yn y pen draw am unrhyw benderfyniadau mawr. Fel arfer, bydd gan brifysgol restr o ddirprwyaethau, sy'n golygu bod rhai penderfyniadau'n cael eu dirprwyo i grŵp neu is-bwyllgor arall. Fodd bynnag, bydd penderfyniadau o bwys yn cael eu cytuno neu eu cadarnhau gan y corff llywodraethu llawn. Bydd aelodaeth is-bwyllgorau hefyd yn amrywio o brifysgol i brifysgol, a bydd amrywiad hefyd o ran cyfranogiad myfyrwyr. Oherwydd hyn, bydd rhai llywodraethwyr yn ymwybodol o faterion cyn iddynt gyrraedd y corff llywodraethu llawn. Lle bo materion yn effeithio ar brofiad y myfyriwr, disgwylir i lais y myfyriwr gael ei ystyried drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr ac i dystiolaeth a data ehangach gael ei ystyried. Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sy'n llywodraethwyr am roi sylw arbennig i fusnes y pwyllgorau lle nad oes gennych gynrychiolaeth, a gweithio gyda'r clerc/ysgrifennydd i helpu i nodi'r materion hynny.





# Meithrin perthynas â chlerc/ysgrifennydd y brifysgol

Anogir yr holl lywodraethwyr i feithrin perthynas waith gref gyda chlerc neu ysgrifennydd y corff llywodraethu. Er y gall fod gan y clerc/ysgrifennydd gyfrifoldebau gweithredol eraill yn y brifysgol, mae ganddynt ddyletswydd benodol i gefnogi llywodraethu da a gweithredu fel ymgynghorydd diduedd i'r corff llywodraethu ac i lywodraethwyr unigol. Yn y rôl honno, byddant yn arwain y cyfnod sefydlu a'r cymorth i bob llywodraethwr newydd, a phan fydd pryder neu broblem yn codi, maent yn bwynt cyswllt cyntaf defnyddiol i gynnig cyngor ac arweiniad fel arfer.

# Cyfrifoldebau penodol llywodraethwyr

Mae llywodraethwyr yn gyfrifol am bolisïau'r sefydliad, ei gyfeiriad strategol a lles y sefydliad yn gyffredinol, gan gynnwys trosolwg o faterion ariannol a'i gydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion allanol. Mae cyfrifoldebau'r corff llywodraethu fel arfer wedi'u nodi mewn Datganiad o Brif Gyfrifoldebau.

Mae'r meysydd cyfrifoldeb allweddol yn cynnwys:

- llunio a chytuno ar strategaeth sefydliadol
- ansawdd a llywodraethu academaidd
- cydymffurfio a rheoleiddio
- ymgymryd â dyletswyddau fel ymddiriedolwr elusen
- gweithrediadau masnachol
- rhyngwladoli
- rheoli risg
- profiad y myfyriwr
- Atal
- penodi pennaeth y sefydliad (is-ganghellor)
- cynaliadwyedd ariannol a mathau eraill o gynaliadwyedd sefydliadol
- monitro perfformiad
- cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Disgwylir i bob aelod o'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r saith egwyddor a nodir gan Bwyllgor Nolan ar safonau mewn bywyd cyhoeddus:

- anhunanoldeb
- uniondeb
- gwrthrychedd
- atebolrwydd
- bod yn agored
- gonestrwydd
- arweinyddiaeth.

# Pam mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn bwysig?

Mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn bwysig am nifer o resymau:

Rydych chi'n cynnig dilysrwydd i weithrediadau yn sgil eich profiad presennol neu ddiweddar fel myfyriwr. Fel arfer, mae eich safbwynt yn unigryw o gymharu ag eraill sydd ar y bwrdd – mae gennych set sgiliau a phrofiad penodol oherwydd eich bod yn deall amgylchedd academaidd ac ymchwil y brifysgol. Byddwch hefyd yn cynnig nodweddion amrywiol a fydd fel arfer yn ategu llywodraethwyr eraill. Mae'r safbwynt ychwanegol y gall myfyrwyr sy'n llywodraethwyr ei gynnig yn helpu i sicrhau y gall y corff llywodraethu wneud penderfyniadau gwell yn gyffredinol yn sgil ehangder y safbwyntiau a gyflwynir.

Er eich bod yn cynnig profiad penodol i'r corff llywodraethu, ac y byddwch yn gynrychiolydd etholedig fel arfer (yn aml yn swyddog sabothol o undeb myfyrwyr), **nid eich rôl fel llywodraethwr yw bod yn gynrychiolydd, ond yn hytrach gweithredu er pennaf les cyfunol y brifysgol gyfan**.

# Cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr

Mae bod yn fyfyriwr sy'n llywodraethwr yn cynnig cyfleoedd i wneud y canlynol:

+ helpu i lywio dyfodol y brifysgol
+ mynegi profiad 'ar lawr gwlad'
+ dysgu am beth sy'n digwydd ar y lefel uchaf a deall sut mae llywodraethu a rhyngweithio â rheolwyr yn gweithio
+ helpu i lywio dyfodol y brifysgol
+ mynegi profiad 'ar lawr gwlad'





+ datblygu'n bersonol, gwella hyder a chael dealltwriaeth wahanol o faterion
+ cwrdd â phobl o gefndiroedd gwahanol.

# Heriau i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr

Gall yr heriau i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr gynnwys:

+ anghyfarwydd â phobl, materion a gweithdrefnau
+ diffyg profiad mewn meysydd allweddol o gyfrifoldebau llywodraethu
+ deall cymhlethdod technegol rhai papurau
+ materion hyder a hygrededd
+ pryderon am faterion dydd-i-ddydd i fyfyrwyr a all amharu weithiau ar werthfawrogiad strategol
+ gwisgo mwy nag un het – llywodraethwr, cynrychiolydd myfyrwyr.

# Beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau?

Dylid trin pob llywodraethwr yr un fath. Waeth sut rydych wedi cyrraedd y corff llywodraethu, **mae gennych yr un hawliau a'r un cyfrifoldebau â phawb arall**. Mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y corff llywodraethu yn rhai cyfunol, gall hyn olygu weithiau y bydd llywodraethwr yn anghytuno'n bersonol, ond disgwylir i'r corff llywodraethu barhau i weithredu ar sail y penderfyniadau cyfunol a wneir. Gall llywodraethwyr unigol sy'n anghytuno â phenderfyniad penodol ofyn i'w hanghytundeb gael ei gofnodi yn y cofnodion.

Yn gyffredinol, bydd aelodaeth is-bwyllgorau yn cael ei llenwi gan drawstoriad o aelodau'r corff llywodraethu, gan dynnu ar sgiliau a phrofiadau penodol. Ni fydd staff a myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn aelodau o bob is-bwyllgor (fel arfer ni fyddant yn eistedd ar y pwyllgor archwilio), bydd y trefniadau'n amrywio o brifysgol i brifysgol, ac yn gyffredinol caiff dyraniadau eu penderfynu gan y pwyllgor enwebu a'u cymeradwyo gan y corff llywodraethu llawn.

Dylai pob llywodraethwr, gan gynnwys myfyrwyr sy'n llywodraethwyr, ddisgwyl cael cynnig hyfforddiant a chyfnod sefydlu. Dylai prifysgolion drefnu cyfnod sefydlu mewnol penodol ar gyfer unrhyw lywodraethwr newydd (a drefnir fel arfer gan glerc y brifysgol i'r corff llywodraethu neu'r ysgrifenyddiaeth) a fydd yn cynnwys esboniad o sut mae'r trefniadau llywodraethu yn gweithio yn eich prifysgol, y bobl allweddol (gan gynnwys cwrdd â chadeirydd y llywodraethwyr), dysgu am strategaeth y brifysgol a materion allweddol y bydd y corff llywodraethu'n debygol o fod yn eu hystyried dros y flwyddyn i ddod.

Yn genedlaethol, caiff llywodraethwyr eu hannog i gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad i glywed gan arbenigwyr allanol ar faterion amserol sy'n wynebu llywodraethwyr prifysgolion a chyfle i gwrdd â llywodraethwyr o sefydliadau eraill i gymharu nodiadau ac arferion. Bob mis Medi, mae Advance HE yn cynnal sesiwn ddatblygu genedlaethol sydd wedi'i hanelu'n benodol at fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr i'ch cefnogi yn eich rôl.

Mae gennych hawl i ofyn cwestiynau (yn y cyfarfodydd a chyn cyfarfodydd) i herio a chefnogi'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Os oes rhywbeth yn aneglur, gofynnwch. Yn ddelfrydol dylid gofyn cwestiynau am eglurhad cyn y cyfarfod ac, yn y lle cyntaf, y clerc fydd y dewis cyntaf er mwyn cael eglurhad neu gefnogaeth. Fodd bynnag, mae croeso i chi gysylltu â'r cyfarwyddwr cyllid os oes rhywbeth yn aneglur yn y cyfrifon, neu'r cyfarwyddwr technoleg gwybodaeth ynghylch papur am dechnoleg gwybodaeth ac ati.

Os nad ydych yn teimlo eich bod wedi gallu cyfrannu fel yr hoffech, dylech siarad â'r cadeirydd, yr is-ganghellor neu ysgrifennydd/clerc y brifysgol (pwy bynnag y byddwch yn dod ymlaen â nhw orau); bydd pob un yn awyddus i'ch cefnogi i wneud cyfraniad ystyrlon.

Mae cyfrifoldebau'r corff llywodraethu wedi'u nodi yng Nghod Rheolaeth Ariannol CCAUC a'r telerau ac amodau ariannu. Mae Atodiad C o'r Cod Rheolaeth Ariannol yn rhoi arweiniad y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ei ystyried, ynghyd â rhestr wirio ar gyfer cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol. Mae cyfrifoldebau'r corff llywodraethu wedi'u cynnwys drwy'r Cod Rheolaeth Ariannol, ac mae tudalennau 17 i 25 o'r Cod yn nodi cyfrifoldebau penodol ar gyfer penodi a diswyddo archwilwyr allanol a mewnol.

## Gweithredu fel ymddiriedolwr elusen

Yn ogystal â'ch cyfrifoldebau i'r sefydliad, rydych hefyd yn dal rôl ffurfiol fel ymddiriedolwr elusen. Mae hyn yn golygu eich bod yn gyfrifol am gydymffurfio â chyfraith elusennau, gan sicrhau bod yr elusen yn gweithredu yn unol â'r amcanion y cafodd ei sefydlu ar eu cyfer.

Mae gan y Comisiwn Elusennau ganllawiau defnyddiol i ymddiriedolwyr elusen, gan gynnwys trosolwg o chwe phrif ddyletswydd ymddiriedolwr elusen:

- sicrhau bod eich elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd
- cydymffurfio â dogfen lywodraethu eich elusen a'r gyfraith
- gweithredu er budd gorau eich elusen
- rheoli adnoddau eich elusen yn gyfrifol
- gweithredu gyda gofal a sgìl rhesymol
- sicrhau bod eich elusen yn atebol.





## Adolygiad Camm o Lywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru

Ym mis Gorffennaf 2019, comisiynodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru Gillian Camm i gynnal adolygiad o arferion llywodraethu prifysgolion Cymru. Gyda chefnogaeth grŵp adolygu (a oedd yn cynnwys cadeiryddion, is-gangellorion, llywodraethwyr a chynrychiolwyr o undebau llafur ac undebau myfyrwyr yng Nghymru) ceisiodd yr adolygiad edrych ar bedwar prif faes:

1. Cyfansoddiad y corff llywodraethu.
2. Y broses benderfynu a'i hansawdd.
3. Y berthynas rhwng y weithrediaeth a'r corff llywodraethu.
4. Tâl cadeiryddion a llywodraethwyr.

Nododd Adolygiad Camm 21 o argymhellion i'w rhoi ar waith ar draws y sector, ac mae prifysgolion Cymru wedi bod yn ymateb iddynt drwy gynlluniau gweithredu unigol. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud ag ystod o feysydd, gan gynnwys lleihau aelodaeth cyrff llywodraethu i 22 (os oedd yn uwch); bod pwyllgorau tâl yn cysoni eu gwaith â gwerthoedd y brifysgol; bod pwyllgorau enwebu yn rhoi golwg ehangach ar faterion amrywiaeth; sefydlu arferion adrodd hyfywedd hirdymor; a datblygu adroddiad blynyddol cyffredin a setiau data cymaradwy.

Mae pob sefydliad yng Nghymru wedi ymrwymo i Adolygiad Camm ac i roi'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad ar waith.

## Cyngor ymarferol i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr

Mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'r ffordd y caiff addysg uwch ei lywodraethu. Maent yn gallu cyfrannu eu profiadau cyfoes o astudio i waith craffu'r bwrdd, mae ganddynt ran weithredol yn llwyddiant y sefydliad, ac maent yn dod â mewnwelediadau a safbwyntiau a all gyfoethogi ac ategu trafodaethau'r bwrdd.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr naill ai'n swyddogion o undeb myfyrwyr (yn aml yn gwasanaethu tymor sabothol rhwng eu hastudiaethau neu'n syth ar ôl astudio) neu'n uwch gynrychiolydd myfyrwyr. Fel arfer hwn fydd y penodiad cyntaf ar lefel bwrdd ar gyfer y rhan fwyaf o gynrychiolwyr myfyrwyr, ac mae hyn yn golygu y gall fod yn gromlin ddysgu serth. Wrth ystyried hynny, mae'n bwysig bod y sesiwn sefydlu wedi'i theilwra ar eich cyfer.

O ystyried y cyfnod byr sydd gan fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr, mae meithrin hygrededd dros eich cyfnod yn y rôl yn bwysig, a gellir gwneud hyn drwy feithrin perthynas â llywodraethwyr eraill yn anffurfiol a chyfrannu at drafodaethau'r bwrdd yn adeiladol.

Ystyriaethau eraill yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n llywodraethwyr:

## Gwisgo mwy nag un het

P'un a yw myfyriwr sy'n llywodraethwr yn swyddog undeb myfyrwyr neu'n gynrychiolydd myfyrwyr, fe fydd adegau pan na fydd eu buddiannau fel cynrychiolydd yn cyd-fynd yn berffaith â'r sefydliad. Pan fydd llywodraethwr yn eistedd ar fwrdd mae angen iddo weithredu er budd cyffredinol y sefydliad, ac o dro i dro gall hyn arwain at wrthdaro buddiannau. Nid yw hyn yn atal myfyrwyr sy'n llywodraethwyr rhag anghytuno â'r penderfyniad a wnaed yn y pen draw nac i'w hanghytundeb gael ei nodi'n ffurfiol (gan gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod). Yn y rhan fwyaf o achosion mae buddiannau myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn cyd-fynd â phenderfyniad y corff llywodraethu, ond mae'n werth bod yn barod ar gyfer adegau pan nad ydynt.

Os bydd unrhyw lywodraethwr yn teimlo na all gefnogi penderfyniad corff llywodraethu, byddai cysylltu â'r clerc yn syniad da er mwyn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hyn orau.

## Peidio â chyfyngu eich hunan i faterion profiad myfyrwyr yn unig

Mae gan bob llywodraethwr yr un hawliau a chyfrifoldebau. Weithiau gall fod yn hawdd i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr gael eu cyfyngu i gyfrannu at yr eitemau sy'n ymdrin yn benodol â phrofiad y myfyriwr. Fel arfer, bydd gan fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr gyfraniad pwysig i'w wneud ar y materion hyn, ond mae cyfraniadau ar faterion ehangach yn cael eu croesawu a'u hannog bob amser.

## Llywio strwythur llywodraethu llawn y darparwr

Bydd gan lawer o fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr fantais fawr o gymharu â llywodraethwyr eraill oherwydd byddant hefyd yn ymwneud â phwyllgorau eraill a strwythurau llywodraethu academaidd ehangach yn y sefydliad. Bydd hyn yn aml yn golygu y bydd myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn gweld sut y caiff cynnig ei ddatblygu o'i gamau cychwynnol, ac wrth iddo weithio ei ffordd drwy'r strwythur pwyllgorau amrywiol. Ar gyfer llawer o faterion, bydd hyn yn golygu na fydd angen i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr aros i fater gyrraedd y corff llywodraethu cyn cyfrannu neu feirniadu cynnig. Weithiau gall rhannu sut cafodd eitem ei hystyried yn ystod camau eraill o'r system bwyllgorau fod yn ddefnyddiol i lywodraethwyr eraill.

## Ond dywedodd eich rhagflaenydd rywbeth gwahanol...

O ystyried trosiant cynrychiolwyr myfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn mae'n bosib y bydd myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn cymryd safiad gwahanol i'w rhagflaenwyr. Nid yw'r ffaith fod aelodau eraill yn dweud hyn yn golygu y dylai myfyriwr sy'n llywodraethwr deimlo bod dyletswydd arnynt i ddilyn yr un llwybr â'u rhagflaenwyr. Buddiannau'r sefydliad a'i fyfyrwyr ddylai'r brif ystyriaeth fod.

## Cofleidio'r anghyfarwydd

I lawer o fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr, bydd agweddau ar lywodraethu corfforaethol a fydd yn anghyfarwydd iddynt. Gall hyn gynnwys deall meysydd fel pensiynau neu gyllid. Nid oes unrhyw ddisgwyliad i fyfyrwyr fod yn arbenigwyr yn y meysydd hyn, yn wir, elfen hollbwysig o lywodraethu da yw y bydd aelodau gwahanol yn dod â chryfderau ac arbenigedd penodol i'r bwrdd.





Mae myfyrwyr sy'n llywodraethwyr yn cynnig arbenigedd drwy eu dealltwriaeth o brofiad myfyrwyr, sy'n rhan hanfodol o waith craffu'r bwrdd, ond gallant weithio gyda'r clerc (neu'r ysgrifenyddiaeth ac uwch swyddogion y brifysgol) i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r meysydd y maent yn llai cyfarwydd â nhw.

## Meithrin perthynas â llywodraethwyr eraill

Fel arfer bydd aelodau lleyg/annibynnol o'r corff llywodraethu yn awyddus i feithrin perthynas â myfyrwyr. Mae gennych chi fewnwelediad unigryw ac amhrisiadwy, a dylai aelodau lleyg fod â diddordeb mewn clywed mwy amdano. Yn aml, bydd gan aelodau lleyg brofiad cyfoethog o'u gyrfaoedd proffesiynol y gallant eu rhannu â'r bwrdd. Mae'r byrddau gorau yn ceisio datblygu perthynas gref rhwng eu holl aelodau, a dylid annog myfyrwyr sy'n llywodraethwyr i feithrin perthynas â llywodraethwyr eraill.

## Targed ar gyfer lobïo

Mae gan fyfyrwyr ac aelodau o staff ar gyrff llywodraethu fewnwelediad gwerthfawr i agweddau ar berfformiad sefydliadol. Mae'r gallu sydd gan fyfyrwyr ac aelodau staff i gael perthynas uniongyrchol ag adrannau unigol a rhannau eraill o'r darparwr yn gryfder. Mae yna adegau pan fydd myfyrwyr (a staff) sy'n llywodraethwyr yn cael eu holi a'u lobïo am bryderon unigol. Fel aelod o'r corff llywodraethu, mae cyfrifoldeb ar bob aelod i weithredu er budd cyfannol a chorfforaethol y sefydliad. I'r perwyl hwnnw, bydd angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o sicrhau bod pryderon unigol yn cael eu codi ar y lefel briodol yn strwythur llywodraethu'r sefydliad. Unwaith eto, bydd y clerc yn unigolyn defnyddiol i gysylltu â nhw pe bai llywodraethwr am drafod hyn ymhellach.

## Trosiant cyflym

Oherwydd trosiant cyflym myfyrwyr sy'n llywodraethwyr, mae pwysau arbennig i ddechrau ar y gwaith yn syth. Nid oes gan fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr amser i aros am dri neu bedwar cyfarfod cyn gwneud cyfraniad, gan mai dyna fydd y rhan fwyaf o'ch cyfnod yn y rôl. Mae hynny'n gosod pwysau arbennig ar sicrhau bod y cyfnod sefydlu yn drylwyr ac yn bersonol (bydd sefydliadau'n darparu hyn, a bydd cyfleoedd ar gael gan gyrff eraill fel Advance HE hefyd). Mae cael cyfle i gwrdd â'ch rhagflaenydd yn bwysig ac yn cael ei annog, i siarad yn benodol am eu profiad ar y corff llywodraethu. Mae 'beth oedd y pwyntiau trafod mawr', 'pa aelodau oedd yn cydymdeimlo â phrofiad y myfyriwr', 'heriau mawr i'r sefydliad' yn bynciau pwysig i'w trafod yn y broses drosglwyddo rhwng y myfyrwyr sy'n llywodraethwyr sy'n gadael a'r rhai newydd.

## Ystyriwch gyflwyno adroddiad neu bapur i'r bwrdd

Mae gan bob aelod ar y bwrdd hawl i awgrymu eitem agenda ar gyfer cyfarfod. Fel myfyriwr sy'n llywodraethwr efallai yr hoffech ofyn i eitem, adroddiad neu bapur gael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Fel arfer byddech yn siarad am y pwnc yr hoffech i'r bwrdd ei ystyried gyda'r clerc neu'r ysgrifennydd yn y lle cyntaf, a ph'un a hoffech lunio papur i gyd-fynd â'r pwnc. Bydd rhai prifysgolion hefyd yn cysylltu ag undeb y myfyrwyr neu fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr i gyflwyno papur neu adroddiad. Os hoffech chi gael cymorth i ddrafftio'r papur hwnnw, y clerc neu'r ysgrifennydd fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf i chi.

# Llywodraethu academaidd

Bydd gan bob prifysgol strwythur llywodraethu academaidd sydd fel arfer yn diweddu gyda chorff o'r enw y senedd neu fwrdd academaidd. Er y bydd y senedd/bwrdd academaidd yn aml yn gwneud penderfyniadau am feysydd academaidd neu ymchwil y brifysgol, os oes ganddynt arwyddocâd ariannol, materol neu o ran enw da, bydd angen awdurdodiad ar y rhain gan y corff llywodraethu llawn, sydd â'r cyfrifoldeb terfynol. Felly, dylid talu sylw manwl i'r llif gwybodaeth rhwng y senedd/bwrdd academaidd a'r corff llywodraethu bob amser.

Fel arfer, bydd y myfyrwyr sy'n llywodraethwyr, ynghyd â'r is-ganghellor, yn aelodau o'r senedd/bwrdd academaidd yn ogystal â'r corff llywodraethu, ac mae hyn yn rhoi safbwynt arbennig o bwysig i chi gan y byddwch wedi gweld llawer o faterion academaidd cyn iddynt gyrraedd y corff llywodraethu.

# Dolenni at ddogfennau/canllawiau eraill

Llawlyfr Polisïau Addysg Uwch – Cyflwyniad byr i swyddogion undeb myfyrwyr (2019)

Canllaw Advance HE ar gyfer sefydlu llywodraethwyr newydd ym maes addysg uwch (2018)
– nid yw'n benodol i fyfyrwyr sy'n llywodraethwyr

Cod Llywodraethu Addysg Uwch gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020)

Cod Tâl Uwch Aelodau o Staff Addysg Uwch gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2021)

Adolygiad Camm (2019)

Canllaw y Comisiwn Elusennau ar gyfer Ymddiriedolwyr (2018)

Gwybodaeth am lywodraethu gan y Cyngor Cyllido (dim dyddiad)

Pecyn Cymorth Llywodraethwyr gan y Cyngor Cyllido (2017)

Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Myfyrwyr gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (2011)



Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan Aaron Porter
(Cyfarwyddwr Cyswllt, Llywodraethu), Advance HE.

Advance HE

## Contact us


**General enquiries**

+44 (0) 3300 416201

enquiries@advance-he.ac.uk

www.advance-he.ac.uk

**Media enquiries**

+44 (0) 1904 717500

communications@advance-he.ac.uk

www.advance-he.ac.uk/contact-us

@AdvanceHE


Advance HE enables excellence in higher education, helping it shape its future. Within the UK and globally, Advance HE supports institutions in the areas of excellence in education, transformative leadership, equity and inclusion and effective governance. This is delivered through membership benefits (including accreditation of teaching, equality charters, research, knowledge and resources), programmes and events, Fellowships, awards, consultancy and enhancement services and student surveys.


Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Registered as a charity in England and Wales no. 1101607 Registered as a charity in Scotland no. SC043946. The Advance HE logo should not be used without our permission.


---


© 2022 Advance HE. All rights reserved.

The views expressed in this publication are those of the author and not necessarily those of Advance HE. No part of this publication may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the written permission of the copyright owner. Such permission will normally be granted for non-commercial, educational purposes provided that due acknowledgement is given.


To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE: +44 (0) 3300 416201 or publications@advance-he.ac.uk